OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 517

# Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

## RHAN 2

Yr awdurdod cymwys a darpariaethau amrywiol

**Yr awdurdod cymwys**

**3.** Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Rheoliad Rheolaeth yr UE a Rheoliad Gweithredu'r UE.

**Cyfyngiadau ar fynediad i sgil-gynhyrchion anifeiliaid**

**4.**—(1) Rhaid peidio â mynd â sgil-gynhyrchion anifeiliaid, gan gynnwys gwastraff arlwyo, i unrhyw fangre pe bai gan anifeiliaid a ffermir fynediad at sgil-gynhyrchion anifeiliaid o'r fath.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, ac eithrio—

(a) cynhyrchion sy'n dod o wastraff arlwyo; neu

(b) blawd cig ac esgyrn sy'n dod o ddeunydd Categori 2 a phroteinau anifeiliaid wedi eu prosesu y bwriedir eu defnyddio fel gwrteithiau organig a deunyddiau i wella pridd neu eu defnyddio ynddynt, nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion Erthygl 32(1)(d) (rhoi ar y farchnad a defnyddio) o Reoliad Rheolaeth yr UE.

(3) Rhaid i gorff neu ran o gorff unrhyw anifail a ffermir na chafodd ei gigydda i'w fwyta gan bobl gael eu cadw gan weithredwr, hyd nes y'u traddodir neu y'u gwaredir, yn y fath fodd a fydd yn sicrhau na fydd unrhyw anifail neu aderyn yn gallu cael mynediad at y corff neu'r rhan o gorff.

**Defnyddio gwrteithiau organig a deunyddiau i wella pridd**

**5.**—(1) Os defnyddir gwrteithiau organig neu ddeunyddiau i wella pridd ar dir, ni chaiff neb ganiatáu i foch gael mynediad at y tir hwnnw na chael eu bwydo â phorfa wedi ei thorri oddi ar y tir hwnnw am gyfnod o 60 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y defnyddir y gwrteithiau organig neu'r deunyddiau i wella pridd.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i'r gwrteithiau organig na'r deunyddiau i wella pridd a ganlyn—

(a) tail;

(b) llaeth;

(c) cynhyrchion yn seiliedig ar laeth;

(d) cynhyrchion sy'n dod o laeth;

(e) llaeth tor;

(f) cynhyrchion o laeth tor; neu

(g) cynnwys y llwybr treulio.

**Canolfannau casglu**

**6.** Mae safle prosesu ar gyfer deunydd Categori 2 a gymeradwywyd at ddibenion bod yn ganolfan gasglu ar gyfer deunydd Categori 2 wedi ei awdurdodi'n ganolfan gasglu.

**Ardaloedd pellennig**

**7.** Mae'r ardaloedd a ganlyn yn ardaloedd pellennig at ddibenion Erthygl 19(1)(b) o Reoliad Rheolaeth yr UE (casglu, cludo a gwaredu)—

(a) Ynys Enlli;

(b) Ynys Byr;

(c) Ynys Dewi; a

(d) Ynys Echni.

**Rhoi ar y farchnad**

**8.** Mae rhoi ar y farchnad wlân sydd heb ei drin a blew sydd heb ei drin o ffermydd neu o sefydliadau neu safleoedd wedi ei awdurdodi ac eithrio pan fônt yn peri risg o unrhyw glefyd trosglwyddadwy drwy'r cynhyrchion hynny i fodau dynol neu i anifeiliaid.

**Rhoi gwybod am ganlyniadau profion**

**9.** Rhaid i weithredwyr roi gwybod i Weinidogion Cymru am ganlyniadau unrhyw brofion a gynhelir yn unol ag unrhyw rai o'r Erthyglau a ganlyn yn Rheoliad Gweithredu'r UE sy'n methu â bodloni'r safonau y mae'r Erthyglau hynny'n gofyn amdanynt—

(a) Erthygl 10(1) (gofynion ynglŷn â thrawsffurfio sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn fionwy a chompostio);

(b) Erthygl 21(1) (prosesu sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a'u rhoi ar y farchnad i'w bwydo i anifeiliaid a ffermir);

(c) Erthygl 22(1) (rhoi gwrteithiau organig a deunyddiau i wella pridd ar y farchnad a'u defnyddio); a

(d) Erthygl 24(3) (bwyd anifeiliaid anwes a chynhyrchion eraill sy'n dod o anifeiliaid).